

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	2 MAWRTH 2020
PWNC:	MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 3 2019/20
AELOD PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD:	STEPHEN MOORE
RHIF FFÔN:	01248 752634
E-BOST:	StephenMoore@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

A - Argymhellion a Rhesymau

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r isod:-

- (i) Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2019/20.
- (ii) Y canlyniad a ragwelir ar gyfer 2019/20.

2. Cefndir

- (i) Ym mis Mawrth 2019, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 a oedd yn dangos gwarged a gynlluniwyd o £7.8m.
- (ii) Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 yw £14.0m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2018/19.
- (iii) Rhoes y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddsu, ddiffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £2.0m, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.
- (iv) Mae'r CRT wedi ei glustnodi i'w defnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cyllid yn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Rhagfyr 2019.

4. Trosolwg

- (i) Mae'r sefyllfa refeniw ar gyfer Ch3 yn dangos gorwariant o £220k. Mae'r rhagolygon o ran incwm bellach yn £146k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant £75k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.
- (ii) Mae'r gwariant Cyfalaf £2,896k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £3,117k yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B.
- (iii) Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £2,896k yn llai na'r gyllideb (gan gynhyrchu gwarged o £789k), o'i gymharu â £40k yn uwch a ddangosir yn adroddiad Ch2, yn bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf a oedd yn is na'r gyllideb.

5. Incwm

- (i)** Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd yr incwm a dderbyniwyd £22k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd fel y nodir isod.
- (ii)** Roedd incwm rhent £81k yn is na'r gyllideb, a hynny'n bennaf oherwydd bod cwblhau tai Cyngor newydd a'r eiddo a brynwyd yn ôl wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i ailosod cynllun Llawr Y Dref ar ei newydd wedd oherwydd yr oedi cyn i'r cwmnïau cyfleustodau osod mesuryddion trydan a sicrhau cyflenwad trydan i'r fflatiau. Yn ogystal, gan fod Llawr y Dref wedi ei ddynodi'n gynllun gosod sensitif, er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o denantiaid, ni fydd yr holl fflatiau wedi eu gosod tan ddiwedd mis Mawrth. Mae'r rhagolwg wedi'i newid i fod £221k yn is na'r gyllideb wreiddiol gan nad oes disgwyl nawr y comisiynir yr eiddo newydd tan chwarter cyntaf 2020/21 pan ddisgwylir i 33 eiddo newydd ddod ar gael, yn hytrach nag yn chwarter pedwar 2019/20 fel y disgwyliwyd yn wreiddiol.
- (iii)** Mae incwm o ffioedd gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, £56k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 3. Mae hyn yn parhau â'r duedd a nodwyd yn adroddiad Ch2, a pharheir i ragweld y bydd incwm £75k yn uwch na'r gyllideb.
- (iv)** Mae'r rhagolwg cyffredinol ar gyfer incwm bellach yn ostyngiad o £146k o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn.

6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- (i)** Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd gwariant ar waith heblaw gwaith trwsio a chynnal a chadw £148k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith y cafodd archebion ar gyfer gwariant disgwyledig ar system TG yr Adran Dai eu codi am y flwyddyn gyfan ac am fod costau'r diwrnodiau glanhau yn digwydd yn bennaf ym misoedd yr haf. Rhagwelir bellach y bydd gwariant £65k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol, gan adlewyrchu'r gwaith ychwanegol gan y tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r costau cyfleustodau ychwanegol a gafwyd oherwydd yr oedi cyn comisiynu eiddo newydd gan fod y CRT yn gyfrifol am filiau o'r fath tan osodir yr eiddo.

7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- (i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT) yn dangos tanwariant o £45k. Hon yw'r flwyddyn lawn gyntaf ers allanoli storfa'r Uned a disgwylir arbedion ac mae'r rheini wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Mae'n amlwg bod yr arbedion a wireddwyd yn fwy na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, felly erbyn hyn rhagwelir tanwariant o £40k sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer y galw ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.
- (ii)** Mae gwariant ar staff cynnal a chadw nad ydynt yn rhai'r UCT £5k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Ch3. Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw y dylai'r gwariant fod yn unol â'r gyllideb.
- (iii)** Mae gorwariant o £89k ar gostau gwaith trwsio a chynnal a chadw arall o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd oherwydd y gwaith ychwanegol a wnaed mewn perthynas â diogelwch tân, systemau mynediad a gwaith trin carthffosiaeth. O ganlyniad, rhagwelir gorwariant o £50k ar ddiwedd y flwyddyn.

8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

- (i) Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

9. Gwariant Cyfalaf

- (i) Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019, yn werth cyfanswm o £14,017k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,532k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£9,825k). Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2017/18. Gwnaed mân newid i'r gyllideb, sef cynnydd o £100k yng nghost gwaith adfer, fydd yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Ar sail y wybodaeth bresennol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £11,000k, sydd £3,117k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig.
- (ii) Mae'r rhagolwg cyfalaf wedi'i ddiwygio'n llwyr ar sail y lefelau gwariant cyfredol. Mae'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol i'w gweld yn y prosiectau ar gyfer datblygu tai Cyngor newydd lle mae cynlluniau wedi'u gohirio i flwyddyn ariannol 2020/21, gan arwain at danwariant o £1,871k eleni, a'r contractau cynnal a chadw cynlluniedig lle mae amseriad gosod y contractau yn golygu y bydd £1,600k o waith hefyd yn cael ei ohirio i 2020/21. Mae'r tanwariannau hyn wedi'u gwrthbwysu'n rhannol gan waith dan Raglen SATC a ohiriwyd gynt ar gais tenantiaid ac a wneir pan fo tenantiaethau'n newid, sydd £450k yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol ar ei gyfer. Mae'n anodd rhagweld amseriad y costau hyn oherwydd dim ond pan fydd yr eiddo'n wag y gellir gwneud y gwaith.
- (iii) Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod y swm a gyllidir o gyfrif refeniw y CRT yn gostwng yn yr un modd. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido'r prosiectau sydd wedi'u gohirio i'r flwyddyn nesaf.

10 Balans y CRT

- (i) Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,387k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £2,107k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y gorwariant a ragwelir ar y gyllideb refeniw ynghyd â'r tanwariant a ragwelir ar y gyllideb gyfalaf yn arwain at drosglwyddo £789k ychwanegol i'r gronfa wrth gefn. Bydd hyn yn rhoi balans wrth gefn o £9,176k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido'r gwariant CRT yn y dyfodol.

B – PA OPSIYNAU ERAILL WNAETHOCH CHI EU HYSTYRIED A BETH OEDD EICH RHESYMAU DROS EU GWRTHOD AC/NEU DDEWIS YR OPSIWN HWN?

Amherthnasol

C – AM BA RESWM Y MAE HWN YN BENDERFYNIAD I'R PWYLLGOR GWAITH?

Mae'r mater wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A YW'R PENDERFYNIAD HWN YN GYSON Â'R POLISI A GYMERADWYFYD GAN Y CYNGOR LLAWN?

Ydi

D – A YW'R PENDERFYNIAD HWN O FEWN Y GYLLIDEB A GYMERADWYFYD GAN Y CYNGOR?

Ydi

DD – GYDA PHWY WNAETHOCH CHI YMGYNGHORI?		BETH OEDD EU SYLWADAU?
1	PRIF WEITHREDWR / UWCH DIM ARWEINYDDIAETH (UDA) (MANDADOL)	
2	CYLLID / ADRAN 151 (MANDADOL)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	CYFREITHIOL / SWYDDOG MONITRO (MANDADOL)	Ymgynghorir â'r swyddog fel rhan o'r UDA.
4	ADNODDAU DYNOL (AD)	
5	EIDDO	
6	TECHNOLEG GWYBODAETH CYFATHREBU (TGCH)	
7	CAFFAEL	
8	SGRIWTINI	
9	AELODAU LLEOL	
10	UNRHYW GYRFF ALLANOL ERAILL	
E – RISGIAU AC UNRHYW GAMAU LLINIARU (OS YN BERTHNASOL)		
1	ECONOMAIDD	
2	GWRTHDLODI	
3	TROSEDD AC ANHREFN	
4	AMGYLCHEDDOL	
5	CYDRADDOLDEBAU	
6	CYTUNDEBAU CANLYNIAD	
7	ARALL	
F - ATODIADAU:		
Atodiad A – gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 3 Atodiad B - gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 3		
FF - PAPURAU CEFNDIR (CYSYLLTWCH OS GWELWCH YN DDA GYDAG AWDUR YR ADRODDIAD AM UNRHYW WYBODAETH BELLACH):		
- Cyllideb CRT 2019/20 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2019). - Cynllun Busnes 30 Blynedd y CRT – 2019-49 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2019).		

ATODIAD A						
CYFRIF CRT 2019/20						
	Cyllideb Flynyddol 2019/20	Cyllideb a Broffiliwyd hyd at Fis 9	Gwirionedd ol hyd at Fis 9	Amrywiad hyd at Fis 9	Rhagolygon Diwedd Blwyddyn	Amrywiad Diwedd Blwyddyn
	£	£	£	£	£	£
CYLLIDEB REFENIW						
Incwm						
Anheddau	(17,970,000)	(13,477,500)	(13,396,257)	81,243	(17,749,000)	221,000
Garejis	(219,000)	(164,250)	(168,249)	(3,999)	(219,000)	0
Taliadau Gwasanaeth	(133,000)	(99,750)	(155,931)	(56,181)	(208,000)	(75,000)
Arall	(221,000)	(144,002)	(142,843)	1,159	(221,000)	0
Dyledion Drwg	274,000	0	0	0	274,000	0
CYFANSWM IMCWM	(18,269,000)	(13,885,502)	(13,863,280)	22,222	(18,123,000)	146,000
Gwariant heblaw ar waith cynnal a chadw a thrwsio						
Cyfranogiad	117,930	88,396	107,570	19,174	132,930	15,000
Tenantiaid						
Gweinyddu Rhenti	381,940	285,931	307,740	21,809	381,940	0
Rheoli Stadau	229,890	171,719	160,838	(10,881)	229,890	0
Refeniw Arall	693,090	513,893	631,598	117,705	743,090	50,000
Gwariant Refeniw						
Cyfanswm Gwariant heblaw gwaith Cynnal a Chadw a Thrwsio	1,422,850	1,059,939	1,207,746	147,807	1,487,850	65,000
Trwsio a Chynnal a Chadw						
Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT)	3,252,750	2,439,653	2,394,744	(44,909)	3,212,750	(40,000)
Staff Cynnal	834,220	624,465	629,416	4,951	834,220	0
Adeiladau (dim UCT)						
Gwaith Cynnal a Chadw Arall	461,110	345,845	435,304	89,459	511,110	50,000
Cyfanswm Trwsio a Chynnal a Chadw	4,548,080	3,409,963	3,459,464	49,501	4,558,080	10,000
Addasiadau Diwedd Blwyddyn						
Taliadau Cyllid Cyfalaf	3,015,080	0	0	0	3,015,080	0
Ad-daliad o'r	771,630	0	0	0	771,630	0
Gwasanaethau Tai						
Ad-daliad o'r	693,360	0	0	0	693,360	0
Gwasanaethau Canolog						
Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn	4,480,070	0	0	0	4,480,070	0

CYFANSWM GWARIANT REFENIW	10,451,000	4,469,902	4,667,210	197,308	10,526,000	75,000
CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW	(7,818,000)	(9,415,600)	(9,196,070)	219,530	(7,597,000)	221,000
CYFRIF GWARIANT CYFALAF						
Gwariant 2019/20	14,117,000	10,587,750	7,692,183	(2,895,567)	11,000,000	(3,117,000)
Lwfans Gwaith Trwsio Mawr	(2,660,000)	0	0	0	(2,660,000)	0
Grantiau eraill	(1,532,000)	0	0	0	(1,532,000)	0
CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF	9,925,000	10,587,750	7,692,183	(2,895,567)	6,808,000	(3,117,000)
(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YN Y GRONFA WRTH GEFN Y CRT	2,107,000	1,172,150	(1,503,887)	(2,676,037)	(789,000)	(2,896,000)
Balans Agoriadol y CRT	(8,387,000)				(8,387,000)	
(Cynnydd) / Gostyngiad net yng nghronfa wrth gefn y CRT	2,107,000				(789,000)	
Balans Cau'r CRT	(6,280,000)				(9,176,000)	

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gwariant a ragwelir (£)	Gorwariant / Tanwariant a ragwelir (£)
<u>CRT Tai</u>						
Contract Gwres Canolog	400,000	300,000	201,763	(98,237)	400,000	0
Rhaglen Gynnal	4,850,000	3,637,500	2,165,013	(1,472,487)	3,250,000	(1,600,000)
Gwella Perfformiad Ynni	400,000	300,000	10,333	(289,667)	150,000	(250,000)
Gwaith Amgylcheddol	450,000	337,500	137,824	(199,676)	250,000	(200,000)
Caffael Eiddo / Datblygu Eiddo Newydd	6,371,000	4,778,250	3,407,773	(1,370,477)	4,500,000	(1,871,000)
Ailfodelu'r Stoc Presennol	16,000	12,000	65,377	53,377	70,000	54,000
Addasiadau Sector Cyhoeddus	350,000	262,500	267,650	5,150	350,000	0
Risg Tân	200,000	150,000	31,900	(118,100)	200,000	0
SATC	750,000	562,500	929,050	366,550	1,200,000	450,000
Gwaith Adfer	330,000	247,500	322,500	75,000	330,000	0
Tŵls yr UCT	0	0	0	0	100,000	100,000
Modiwl Gwaith Symudol	0	0	153,000	153,000	200,000	200,000
Cyfansymiau'r CRT	14,117,000	10,587,750	7,692,183	(2,895,567)	11,000,000	(3,117,000)